**IS-BWYLLGOR CRAFFU HAMDDEN A DIWYLLIANT**

**(Committee Room 1/2 - Port Talbot Civic Centre)**

| **Aelodau sy'n Bresennol:** | **Dydd Iau, 5 Medi 2019** |
|---|---|

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd S.H.Reynolds** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd R.Mizen** |
| **Cynghorwyr**: | D.Keogh, S.Miller, J.Hale, A.J.Richards, D.Whitelock a/ac J.Jones |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | P.Walker, C.Davies ac J.Woodman-Ralph |

---

1. **DERBYN UNRHYW DDATGANIADAU O FUDDIANT GAN AELODAU**

Gwnaeth yr aelod canlynol ddatganiad o fudd ar gyfer yr Eitem am Adroddiad Cynnydd Cynllun Busnes Canolfan Celfyddydau Pontardawe:-

| | |
|---|---|
| Y Cyng. S Reynolds | Parthed: Adroddiad gan y Pennaeth Trawsnewid - Adroddiad Cynnydd Cynllun Busnes Canolfan Celfyddydau Pontardawe gan ei bod yn aelod o Gyfeillion Canolfan Celfyddydau Pontardawe. |

2. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 3 Mai 2019 yn gofnod cywir.

3. **ORIAU AGOR DROS Y NADOLIG A'R FLWYDDYN NEWYDD 2019 - LLYFRGELLOEDD, THEATRAU, CANOLFANNAU CYMUNEDOL, PARC GWLEDIG MARGAM, CANOLFANNAU HAMDDEN A PHYLLAU NOFIO**

Derbyniodd aelodau wybodaeth ynghylch yr oriau agor dros y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd 2019, mewn perthynas â llyfrgelloedd, theatrau, canolfannau cymunedol, Parc Gwledig Margam, canolfannau hamdden a phyllau nofio fel a fanylwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Yn dilyn craffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynnig sy'n cael ei ystyried gan y Bwrdd Addysg, Sgiliau a Diwylliant y Cabinet.

4. **ADRODDIAD CYNNYDD CYNLLUN BUSNES CANOLFAN CELFYDDYDAU PONTARDAWE**

Datganodd y Cyng. S Reynolds fudd yn ystod y pwynt hwn yn y cyfarfod.

Derbyniodd y Pwyllgor y diweddaraf am y cynnydd a wnaed hyd yn hyn ar gyflwyno cynllun busnes Canolfan Celfyddydau Pontardawe fel a fanylwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Roedd yr aelodau'n hapus gyda'r cynnydd a wnaed ac yn edrych ymlaen at dderbyn rhagor o ddiweddariadau.

Ceisiwyd eglurhad ar gyfer pam nodwyd rhai o'r gweithredoedd yn y cynllun gweithredu yn goch:

- Digwyddiadau cerddoriaeth i bobl ifanc:

Ni chynhaliwyd y rhain. Roedd hyn o ganlyniad i ddiffyg gwybodaeth am y gerddoriaeth addas. Byddai'r fforwm Ieuenctid sydd newydd ei sefydlu yn archwilio i hwn ymhellach. Cynhelir nifer o weithgareddau'n i bobl ifanc yn y ganolfan er enghraifft grwpiau cerddoriaeth, celf a drama ond roedd hon yn fenter newydd i gynyddu nifer y digwyddiadau cerddoriaeth ar gyfer pobl ifanc.

- Siopa ar-lein - Noddwyr:
  Nid oedd hyn yn bosib oherwydd nid yw'r ganolfan yn gallu derbyn statws elusennol. Roedd y Grŵp Cyfeillion yn parhau i chwilio am noddwyr eraill.

- Pris y Clwb Ffilmiau:
  Amlygwyd hyn yn goch. Roedd gwaith yn parhau ond ar gam cynnar a chaiff ei arolygu fel rhan o'r Datblygiad Sinema Newydd.

- Y Celfyddydau mewn Iechyd:
  Roedd gwaith yn symud ymlaen ond o ganlyniad i drafferthion wrth ddod o hyd i gyswllt ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, nid yw’r gwaith wedi symud ymlaen. Sefydlwyd Gweithgor ar y Cyd a chynhelir trafodaethau â'r Bwrdd Iechyd er mwyn eu cynnwys.

Cynhaliwyd trafodaeth am gynnwys y gymuned ynghylch y ganolfan. Esboniwyd bod Cyfeillion Canolfan Celfyddydau Pontardawe wedi bod yn rhan o'r gwaith gwella i wneud y ganolfan yn fwy dichonadwy ac wedi cymryd rhan mewn cyflwyno syniadau ar gyfer creu incwm.

Yn dilyn craffu, cytunwyd nodi'r adroddiad.

## 5. <u>MENTER NOFIO AM DDIM NEWYDD LLYWODRAETH CYMRU</u>

Derbyniodd aelodau drosolwg o Fenter Nofio am Ddim newydd Llywodraeth Cymru fel a fanylwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Cynhaliwyd trafodaethau ynghylch newidiadau i gyllid Menter Nofio am Ddim Llywodraeth Cymru. Hefyd, sut byddai'r newidiadau'n effeithio ar bobl dros 60 oed oherwydd byddai'r pwyslais ar gyfer nofio am ddim bellach ar bobl dan 16 oed.

Mynegwyd pryder gan aelodau am yr effaith y byddai'r newid hwn yn ei chael ar iechyd a lles pobl dros 60 oed sy'n nofio am ddim i hyrwyddo ffordd iach o fyw.

Er bod Hamdden Celtic wedi derbyn llai o gyllideb ar gyfer nofio am ddim i bobl dros 60 oed, roedd yr aelodau'n hapus i nodi bod Hamdden Celtic am barhau i ddarparu sesiynau nofio am ddim i’r unigolion â'r angen mwyaf. Byddant yn parhau i gynnig nofio am ddim yn unrhyw sesiwn nofio gyhoeddus i bawb dros 60 oed sy'n byw yn yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Is (ACEI) yn CBSCNPT. Ond, mynegwyd pryder am y cynnig i ddarparu nofio am ddim i bobl dros 60 oed mewn ardaloedd difreintiedig yn unig. Nododd yr aelodau fod pobl sy'n derbyn Credyd Pensiwn nad ydynt yn byw mewn ACEI yn gallu cael mynediad at nofio am ddim i bobl dros 60 oed mewn unrhyw sesiwn nofio gyhoeddus.

Byddai hefyd sesiynau penodol i bobl dros 60 oed ym mhob pwll ar gyfer y rheini nad ydynt yn bodloni'r meini prawf uchod, neu gallai

pobl dros 60 oed nofio yn unrhyw sesiwn nofio gyhoeddus am ffï ostyngol o £2.00.

Gofynnodd aelodau am sicrwydd y caiff yr wybodaeth gyhoeddus am y newidiadau ei hysgrifennu'n eglur ac mewn Saesneg clir. Hefyd, nodi bod y fenter hon yn un ledled Cymru o Lywodraeth Cymru o ganlyniad i adolygiad a gynhaliwyd gan Gyngor Chwaraeon Cymru.

Yn dilyn craffu, cytunwyd nodi'r adroddiad.

## 6. DATA RHEOLI PERFFORMIAD CHWARTEROL 2019-2020 - DANGOSYDDION PERFFORMIAD CHWARTER 1 (1 EBRILL 2019 - 30 MEHEFIN 2019)

Derbyniodd aelodau wybodaeth am Ddata Rheoli Perfformiad Chwarterol 2019-2020 - Perfformiad Chwarter 1 (1 Ebrill - 30 Mehefin 2019) fel a fanylwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Cynhaliwyd trafodaeth am ddangosydd perfformiad "nifer yr ymweliadau i ganolfannau hamdden fesul 1,000 o'r boblogaeth". Esboniwyd bod yr holl gynghorau ar draws Cymru'n defnyddio meini prawf gwahanol ar gyfer ymweld â chanolfannau hamdden. O ganlyniad i hyn, mae'n anodd iawn cymharu perfformiad ar draws cynghorau'n gywir a thrafodwyd hyn â Llywodraeth Cymru.

Roedd aelodau'n hapus y gofynnwyd i Hamdden Celtic gynnwys nifer yr ymwelwyr â'r canolfannau hamdden, cyfanswm y defnydd a nifer y plant sy'n cymryd rhan mewn gwersi nofio yn eu ffurflenni data perfformiad chwarterol.

Yn dilyn craffu, cytunwyd nodi'r adroddiad.

## 7. BLAENRAGLEN WAITH CRAFFU 2017/18.

Cytunwyd disodli’r Strategaeth Celfyddydau â’r Cynllun Busnes ar gyfer y Celfyddydau.

**CADEIRYDD**